

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Llynedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

The A465 Trunk Road (Rhigos, Rhondda Cynon Taf to Glynneath, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2020

*Gwnaed* 2 Hydref 2020

*Made* 2 October 2020

*Yn dod i rym* 6 Hydref 2020

*Coming into force* 6 October 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a/neu gyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(2), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Llynedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 6 Hydref 2020.

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Rhigos, Rhondda Cynon Taf to Glynneath, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2020 and it comes into force on 6 October 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 6 Hydref 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar naill ai cerbyttffordd tua'r gorllewin neu gerbyttffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbyttffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 20:00 hours on 6 October 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on either the westbound or eastbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4.—(1) Whilst movement is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway but pursuant to article 10 not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive any vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than westwards.

(2) Whilst movement is, by article 3, prohibited in the eastbound carriageway but pursuant to article 10 not prohibited in the westbound carriageway, no person may, during the works period, drive any vehicle in the offside lane of the westbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than eastwards.

5. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 2.9 metres on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30, 40 neu 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwysio

10.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

11. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 9 yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Hydref 2020



Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

7. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

8. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order during such times as the prohibitions referred to in articles 3 and 4 are in operation.

9. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30, 40 or 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

### Application

10.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### Suspension

11. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in article 9 are in operation.

### Duration of this Order

12. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

2 October 2020



Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

**ATODLEN 1**  
**Gwrthlif a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 1.6 cilometr i'r dwyrain o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 am bellter o tua 1.1 cilometr.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 2.18 cilometr i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465 am bellter o tua 1.1 cilometr.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

**ATODLEN 2**  
**Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan y Rhigos.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y 3 cilfan sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt tua 805 o fetrau i'r dwyrain o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 am bellter o tua 1.6 cilometr.

Y 3 cilfan sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt tua 2.3 cilometr i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465 am bellter o tua 1.6 cilometr.

**ATODLEN 3**  
**Terfynau Cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya  
Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 678 o fetrau i'r gorllewin o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 hyd at bwynt tua 165 o fetrau i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465.

**SCHEDULE 1**  
**Contraflow & No Overtaking**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the crossover point approximately 1.6 kilometres east of the A465 Glynneath Interchange for a distance of approximately 1.1 kilometres.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the crossover point approximately 2.18 kilometres west of the A465 Rhigos Halt Road underpass for a distance of approximately 1.1 kilometres.

The length of the eastbound entry slip road at Glynneath Interchange.

**SCHEDULE 2**  
**Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Glynneath Interchange to its junction with the main circulatory carriageway of Rhigos roundabout.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway of Rhigos roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Glynneath Interchange.

The length of the eastbound entry slip road at Glynneath Interchange.

The 3 lay-bys adjacent to the eastbound carriageway of the trunk road located from a point approximately 805 metres east of the A465 Glynneath Interchange for a distance of approximately 1.6 kilometres.

The 3 lay-bys adjacent to the westbound carriageway of the trunk road located from a point approximately 2.3 kilometres west of the A465 Rhigos Halt Road underpass for a distance of approximately 1.6 kilometres.

**SCHEDULE 3**  
**Temporary 30 mph, 40 mph or 50 mph Speed  
Limits**

The length of the trunk road that extends from a point approximately 678 metres west of the A465 Glynneath Interchange to a point approximately 165 metres west of the A465 Rhigos Halt Road underpass.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (Y  
RHIGOS, RHONDDA CYNON TAF I LYN-  
NEDD, CASTELL-NEDD PORT TALBOT)  
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU  
TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, rhwng y Rhigos, Rhondda Cynon Taf a Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. cau naill ai'r gerbyttfordd tua'r dwyrain neu'r gerbyttfordd tua'r gorllewin a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn lôn allanol pa gerbyttfordd bynnag a fydd yn aros ar agor i draffig;

ii. gwahardd pob cerbyd a beiciwr rhag mynd ar y darnau o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd yn ofynnol cau'r prif gerbyttfyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael yn llwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y gwaith er mwyn gosod/dadosod system rheoli traffig yn ddiogel a byddant mewn grym dros nos (rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch). Ar bob adeg arall, bydd y gwrthlif a'r terfynau cyflymder is a ddisgrifir isod yn weithredol. Amlinellir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn yr Atodlen;

iii. gwahardd pob cerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach a phob beiciwr rhag mynd ar y darnau o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn yn ystod cyfnod y gwaith: amlinellir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn yr Atodlen; a

iv. gosod terfynau cyflymder o 30 mya, 40 mya neu 50 mya ar y darn o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 6 Hydref 2020 ac yn weithredol hyd 06:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamsrleddu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamsrleddu.

**THE A465 TRUNK ROAD (RHIGOS,  
RHONDDA CYNON TAF TO GLYNNEATH,  
NEATH PORT TALBOT) (TEMPORARY  
TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS)  
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Rhigos, Rhondda Cynon Taf and Glynneath, Neath Port Talbot.

The effect of the Order is to temporarily:

i. close either the eastbound or westbound carriageway and prohibit overtaking on the lengths of the A465 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. Contra-flow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic;

ii. prohibit all vehicles and cyclists from proceeding on the lengths of the A465 described in Schedule 2 to this Notice. Full closure of the main carriageways and slip road will be needed at the start and end of the works for the safe installation/removal of traffic management and they will be in force overnight (20:00 – 06:00 hours). At all other times, the contraflow and reduced speed limits detailed below will be in operation. Alternative route arrangements are outlined in the Schedule;

iii. prohibit all vehicles of or over 2.9 metres wide and cyclists from proceeding on the lengths of the A465 described in Schedule 2 to this Notice for the duration of the works: the alternative route arrangements are outlined in the Schedule; and

iv. impose 30, 40 or 50 mph speed limits on the length of the A465 described in Schedule 3 to this Notice.

The temporary prohibitions and restrictions are expected to come into force at 20:00 hours on 6 October 2020 and operate until 06:00 hours on 1 December 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.


**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

### **ATODLEN 1** **Gwrthlif a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 1.6 cilometr i'r dwyrain o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 am bellter o tua 1.1 cilometr.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 2.18 cilometr i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465 am bellter o tua 1.1 cilometr.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

### **ATODLEN 2** **Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan y Rhigos.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y 3 cilfan sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt tua 805 o fetrau i'r dwyrain o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 am bellter o tua 1.6 cilometr.

Y 3 cilfan sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r gorllewin

### **SCHEDULE 1** **Contraflow & No Overtaking**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the crossover point approximately 1.6 kilometres east of the A465 Glynneath Interchange for a distance of approximately 1.1 kilometres.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the crossover point approximately 2.18 kilometres west of the A465 Rhigos Halt Road underpass for a distance of approximately 1.1 kilometres.

The length of the eastbound entry slip road at Glynneath Interchange.

### **SCHEDULE 2** **Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Glynneath Interchange to its junction with the main circulatory carriageway of Rhigos roundabout.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway of Rhigos roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Glynneath Interchange.

The length of the eastbound entry slip road at Glynneath Interchange.

The 3 lay-bys adjacent to the eastbound carriageway of the trunk road located from a point approximately 805 metres east of the A465 Glynneath Interchange for a distance of approximately 1.6 kilometres.

The 3 lay-bys adjacent to the westbound carriageway

y gefnffordd o bwynt tua 2.3 cilometr i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465 am bellter o tua 1.6 cilometr.

#### **Y Llwybr Arall ar gyfer Pob Cerbyd (pan fydd y ffyrdd ar gau yn llwyr) a Phob Beiciwr**

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ymadael â'r A465 wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd ac ymuno â'r A4109 a'r B4242 a pharhau tua'r dwyrain hyd at yr A4061 (Rhigos Road) er mwyn ailymuno â'r A465 wrth Gylchfan y Rhigos: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

#### **Y Llwybr Arall ar gyfer Cerbydau Llydan (lletach na 2.9 metr)**

Dylai cerbydau llydan sy'n teithio tua'r dwyrain fynd ar yr A465 tua'r gorllewin o Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at Gyffordd 43 yr M4 (Llandarcy), dilyn yr M4 tua'r dwyrain hyd at Gyffordd 32 (Coryton), ar yr A470 tua'r gogledd hyd at Gylchfan Cefn Coed ac ar yr A465 tua'r gorllewin hyd at Gylchfan y Rhigos: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau llydan sy'n teithio tua'r gorllewin.

#### **Y Llwybr Arall pan fydd y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael Ar Gau (er mwyn gosod/dadosod system rheoli traffig)**

Y llwybr arall yw mynd ar yr A465 tua'r gorllewin hyd at Gylchfan Cwm-gwrach a dychwelyd ar yr A465 tua'r dwyrain, ymadael yng Nghyfnnewidfa Glyn-nedd a dilyn y llwybr dargyfeirio ar gyfer y brif gerbyffordd tua'r dwyrain sydd ar gau.

#### **Y Llwybr Arall pan fydd y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael Ar Gau (yn ystod y gwrthlif)**

Y llwybr arall yw mynd naill ai ar yr A465 tua'r gorllewin hyd at Gylchfan Cwm-gwrach, ymadael a dychwelyd ar yr A465 tua'r dwyrain neu ar y B4242 a'r A4061 (Rhigos Road) er mwyn ymuno â'r A465 wrth Gylchfan y Rhigos.

### **ATODLEN 3**

#### **Terfynau Cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 678 o fetrau i'r gorllewin o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 hyd at bwynt tua 165 o fetrau i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465.

of the trunk road located from a point approximately 2.3 kilometres west of the A465 Rhigos Halt Road underpass for a distance of approximately 1.6 kilometres.

#### **Alternative Route for All Vehicles (during full closures) & Cyclists**

Eastbound traffic should leave the A465 at Glynneath Interchange and join the A4109 and B4242 and continue eastbound to the A4061 (Rhigos Road) to rejoin the A465 at Rhigos Roundabout: vice versa for westbound traffic.

#### **Alternative Route for Wide Vehicles (over 2.9m)**

Eastbound wide vehicles should travel on the westbound A465 from Glynneath Interchange to the M4 Junction 43 (Llandarcy), follow the eastbound M4 to Junction 32 (Coryton), northbound A470 to Cefn Coed roundabout and westbound A465 to Rhigos Roundabout: vice versa for westbound wide vehicles.

#### **Alternative Route for Slip Road Closure (to set up/remove traffic management)**

The alternative route is via the westbound A465 to Cwmgwrach Roundabout and return on the eastbound A465, exit at Glynneath Interchange and follow the diversion route for the main eastbound carriageway closure.

#### **Alternative Route for Slip Road Closure (during contraflow)**

The alternative route is either via the westbound A465 to Cwmgwrach Roundabout, exit and return on the eastbound A465 or via the B4242 and A4061 (Rhigos Road) to join the A465 at Rhigos Roundabout.

### **SCHEDULE 3**

#### **Temporary 30 mph, 40 mph or 50 mph Speed Limits**

The length of the trunk road that extends from a point approximately 678 metres west of the A465 Glynneath Interchange to a point approximately 165 metres west of the A465 Rhigos Halt Road underpass.